**Ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Adnau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026**

# Gofynion

**Dylid adolygu cyfansymiau niferoedd y twf tai ar gyfer y ddwy sir a'r dosbarthiad twf a'r dynodiadau o'u mewn. Dylai'r adolygiad o'r Cynllun Adnau fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o astudiaethau o'r ffactorau allweddol canlynol:**

- **Arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai**
- **Niferoedd a natur stoc dai bresennol y cymunedau**
- **Perthynas incwm aelwydydd a'r gallu i gael mynediad i'r farchnad dai**
- **Niferoedd a natur y tai sydd ar werth/ar osod yn y cymunedau**
- **Dadansoddiad hollgynhwysfawr o ddata Cyfrifiad 2011 (gan gynnwys ffigyrau mudo lefel ward).**

**Dylai asesiad effaith ieithyddol newydd yn unol ag egwyddorion cymdeithaseg iaith gael ei gynnal gan ymgynghorwyr iaith allanol. Dylid seilio'r asesiad ar dystiolaeth yr astudiaethau o'r ffactorau allweddol uchod er mwyn dangos gwir sefyllfa'r Gymraeg yn y cymunedau a dod i gasgliadau rhesymegol, dibynadwy.**

**Rhaid cael Cynllun Adnau a fydd yn diwallu angen cymunedol ac yn cyfrannu i gynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg yng Ngwynedd a Môn.**

*Cylch yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg*